

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 4 Ebrill 2011 am 7.30yh  
yn Hen Ysgol y Ferwig.

## Presennol

Cyng. I. Iago (Cadeirydd)

Cyng. D. Jenkins

Cyng. D. Davies

Cyng. M. Davies (cyrraedd 7.45)

Cyng. Auriol Williams

Cyng. Ll. Price (Is-Gadeirydd)

Cyng. L. Jones

Cyng. H. Jones

Cyng. H. Lewis (Aelod lleol y Cyngor Sir)

Mrs Hildreth Owen (Clerc)

- 1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Islwyn Iago, bawb i'r cyfarfod. Cyn dechrau trafod yr agenda, ymwelwyd â'r chwaraefan er mwyn trafod rhai pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad yn dilyn archwiliad. Nodwyd bod y Cyng. Des Davies wedi trwsio'r siglenni a thorri'r byllt. Cytunodd y Cyngorwyr Islwyn Iago a Dilwyn Jenkins drwsio'r ffens a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Mr Dyfed Symmons ynglŷn â chael prîs am osod y bin sbwriel mewn concriid. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Ann Stokoe.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Mawrth yn rhai cywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Gweler eitem 6 – Ceisiadau am Gymorth Ariannol
- 5. Materion yn codi**  
**Golau Trafnidiaeth yn Gwbert:** Ateb oddi wrth CSC – Adran Briffyrdd (**gweler eitem 10 rhif 63 isod**)  
**Mabwysiadu Ciosgau Gwbert a Felinwynt:** E-bost pellach oddi wrth BT (**gweler eitem 10 rhif 64 isod**) Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â BT ynglŷn â mabwysiadu'r ciosgau.  
**Chwaraefan y Ferwig:** Y gwaith i'w gwblhau erbyn Ebrill 2011 (gweler adroddiad yr archwiliad 8 Rhagfyr 2010)  
**Y Cyngorwyr i ymweld â'r chwaraefan ar ddechrau'r cyfarfod. Gweler rhif 1 uchod.**  
**Arwydd "No Through Road" a Llochesi Bysus:** Llythyr yn cadarnhau bod yr arwydd "No Through Road" ar fynedfa Fferm y Bryn a Felin Bedr wedi ei osod a hefyd bod y llochesi bysus ym Mhenyrcarc wedi eu glanhau (**gweler eitem 10 rhif 69**)
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
**I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.**  
Gŵyl Fawr Aberteifi. £100 (wedi ei dalu ym mis Ebrill)  
Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng Llinos Price.  
Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Des Davies  
*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais.*
- 7. Cynllunio.**  
**Materion cynllunio cyffredinol:** Nid oedd ceisiadau i'w trafod.  
  
**Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.** Bydd y cyfarfod nesaf ar 13 Ebrill 2011.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A100467	Penffordd, Tremain. Newid defnydd yr adeilad presennol i fanwerthu a swyddfeydd (yn adolygol).	Wedi ei wrthod
A101006	Canolfan Cymuned Ferwig. Newidiadau ac estyniadau i ysgol segur sydd yn cael ei defnyddio yn awr fel canolfan gymunedol.	Wedi ei ganiatáu
A110071	Cotswold, Penyparc. Codi estyniad	Wedi ei ganiatáu

**8. Cyfarfod Safle.** Ni chynhaliwyd cyfarfod safle yn ystod y mis.

**9. Materion Ariannol.**

**Biliau wedi eu talu.**

Un Llais Cymru – Aelodaeth	101169	£147.00
Zurich Municipal – Yswiriant y Cyngor	101170	£724.91
Hildreth Owen – Cyflog a chostau'r clerc	101171	£1,000.72
Mrs Karen Jones – Cyflog yr ofalwraig	101172	£216.00
CSC (Cyfraniad y Cyngor tuag at Y Cardi Bach 2010)	101173	£318.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101174	£100.00
Y Cyng. Des Davies (Talu am 4 "Bronze Bushes" er mwyn trwsio'r siglenni yn Chwaraefan y Ferwig)	101175	£11.52

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Derbyniadau.** Llog y Banc am y flwyddyn 2010-11 £2.91

**Materion ariannol eraill.** Archwiliwyd y cyfrifon gan y Cyng. Ann Stokoe, 22/3/11 a'u cafwyd yn gywir. Ad-daliad y DAW, 1 Ebrill 2010 – 31 Mawrth 2011 £473.71  
Cyflwynwyd cyfrifon 2010/11 i'r aelodau.

**10. Gohebiaeth**

53	Yswiriant Zurich	Polisi am y flwyddyn 2011/12	Talwyd
54	Un Llais Cymru	Llythyr ynglŷn â thâl aelodaeth 2011/12	Talwyd
55	Un Llais Cymru	Calendr hyfforddiant 2011/12	Nodwyd
56	Un Llais Cymru	Cofnodion ac Agenda 31/3/11	Nodwyd
57	CSC - Adran Briffyrdd	E-bost ynglŷn â lloches fysis Tremain.	Y Cyng. Islwyn lago wedi cynnig paentio'r gysgodfan.
58	Abacus Cleaning Services	Prisiau am waith glanhau llochesi bysus.	Nodwyd
59	Mr D. Hywelfryn Jones	Achwyniad ynglŷn â gordyfiant ar lwybr Gwbert.	Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir.
60	Mencap Cymru	Cais am gymorth ariannol.	Mae'r Cyngor wedi penderfynu cefnogi elusennau lleol yn unig.
61	CSC – Adran Briffyrdd	Cydnabyddiaeth ynglŷn â 12 achwyniad.	Nodwyd
62	CSC – Swyddog Canlyniadau	Poster Refferendwm ayyb i'w dosbarthu	Y Clerc wedi eu dosbarthu.
63	CSC – Adran Briffyrdd	Ateb ynglŷn â'r gwaith yn Gwbert.	Gweler eitem 5 uchod.
64	BT	E-bost pellach ynglŷn â'r ciosgau	Gweler eitem 5 uchod

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

65	CSC – Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai	Cylchlythyr ar gyfer busnesau	Nodwyd
66	CSC – Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai	Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol 2010	Nodwyd
67	Un Llais Cymru	Hysbysiad o Gynhadledd a Chyfarfod Blynyddol 2011	Nodwyd
68	Llywodraeth Cynulliad Cymru	Hysbysiad o ymchwil yn ymwneud â Chymraeg i Oedolion.	Nodwyd
69	CSC – Adran Briffyrdd	Llythyr yn cadarnhau bod arwydd newydd wedi ei osod ar fynedfa Fferm y Bryn a'r gwaith o lanhau y cysgodfeydd bysiau wedi ei gyflawni.	Gweler eitem 5 uchod
70	CSC	Taflenni yn hysbysu Gweithdai "Llwybrau i'r Bobl" i'w dosbarthu i'r Cyngorwyr.	Taflenni wedi eu dosbarthu.
71	CSC	Holiadur yn gofyn barn y Cyngor ynglŷn ag Amcanion Gwella arfaethedig ar gyfer 2011-12	Wedi ei gwblhau ar lein.
72	CSC (Ian Dutch)	E-bost ynglŷn â threfniadau'r Cardi Bach am 2011/13.	Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Mr Dutch am fanylion pellach.

## 11. Materion Eraill.

**Golau wrth fynediad i ffordd y Clwb Golff (SL73 786) a Goleuadau Trafnidiaeth yn Gwbert:** Derbyniodd y clerc alwad ffôn oddi wrth y Cyng. Dilwyn Jenkins (13/3/11) ynglŷn â'r materion yma. Cysylltodd y clerc gyda llinell gyswilt y Cyngor Sir ynglŷn â'r golau a hefyd trafodwyd gyda Steffan Jones ynglŷn â'r goleuadau trafndiaeth. Mae'n debyg y bydd y gwaith wedi ei orffen erbyn dydd Mercher, 16 Mawrth, os na fyddant wedi gofyn am estyniad i'r dyddiad hwn.

**Lleoli Cist Halen ym mhentref Ferwig:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am y posibilrwydd o leoli cist halen i bentref Ferwig oherwydd problemau yn dilyn ail aeaf caled yn olynol.

**Glanhau'r Llochesi Bysus yn Gwbert a Ferwig:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr y llochesi bysus yn Gwbert a Ferwig a gofyn a fyddai'n bosib trefnu eu glanhau.

**Y Llinell Goll o Olygfan y Gwbert i Westy'r Cliff:** Awgrymwyd bod y clerc yn cysylltu'r â'r Cyngor Sir yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r llinell goll.

**Ymsuddiad ar y ffordd ger Fferm yr Hafod:** Cytunwyd bod y clerc yn cysylltu unwaith eto ynglŷn â'r ymsuddiad.

**Tirlithiad o dan arwydd "Golygfan" yn Gwbert:** Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglŷn â'r broblem.

**Cofnodion y Cyfarfod Ymgynghorol:** Cytunwyd anfon llythyr ymlaen at y Prif Weithredwr gan ofyn am ddiweddariad cofnodion y cyfarfod.

**Toiledau Mwnt:** Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn ag ariannu oriau agor ychwanegol.

**Ffordd wedi suddo yn Felinwynt:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â phantiau ar y ffordd yn Felinwynt.

## 12. Dyddiad y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol: 9 Mai 2011 yn Ystafell Berkley, Penyparc, am 7.30yh.

*Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn 2011 ar y dyddiadau canlynol:*

6 Mehefin (F) 4 Gorffennaf (YB)

5 Medi (F) 3 Hydref (YB) 7 Tachwedd (F) 5 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 4 April 2011 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

### Present:

Cllr I. Iago (Chairman)  
Cllr D. Jenkins  
Cllr D. Davies  
Cllr M. Davies (arr. 8.00)  
Cllr Auriol Williams

Cllr Ll. Price (Vice-Chairman)  
Cllr L. Jones  
Cllr H. Jones  
Cllr. H. Lewis (Local Member of CCC)  
Mrs Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairman's welcome.** The Chairman, Cllr Islwyn Iago, welcomed councillors to the meeting. Before commencement of meeting the councillors visited the Ferwig Play Area to discuss the points raised in the inspection report. It was noted that Cllr Des Davies had repaired the swings and sheared the bolts. Cllrs Islwyn Iago and Dilwyn Jenkins agreed to repair the fence and the clerk was asked to contact Mr Dyfed Symmons for a quotation to secure a litter bin in concrete. The agenda was then discussed.
- 2. Apologies for absence:** Cllr Ann Stokoe.
- 3. Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the March meeting were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** See Item 6 – Application for financial support
- 5. Matters arising.**  
**Traffic Lights at Gwbert:** Response from CCC, Highways dept. (see item 10 no. 63 below)  
**Adoption of Gwbert and Felinwynt Kiosks:** A further e-mail from BT (see item 10 no. 64 below). The clerk was asked to contact BT regarding the adoption of kiosks.  
**Ferwig Play Area:** Work to be completed by April 2011 (see inspection report, 8 December 2010). Councillors to inspect play area prior to meeting. See item 1 above.  
**"No Through Road" Sign and Bus Shelters:** Letter confirming that the sign had been placed at the entrance to Fferm y Bryn and Felinbedr and that the bus shelters at Penyparc had been cleaned (see item 10 no. 69).
- 6. Requests for financial support.**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.  
  
Gŵyl Fawr Aberteifi. £100 (paid in April)  
Proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price.  
Declaration of interest: Cllr Des Davies  
*Names in italics = accounts forwarded with applications*
- 7. Planning.**  
**General Planning Matters:** There were no planning applications to discuss.  
  
**County Council's Planning Meeting.** Next meeting: 13 April 2011.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Applications approved or refused by the County Council.

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A100467	Penffordd, Tremain. Change of use of existing buildings to retail and retail/offices (Retrospectively)	Refused
A101006	Canolfan Cymuned Ferwig. Alterations and extensions to redundant school now being used as a community centre	Approved
A110071	Cotswold, Penyparc. Erection of an extension	Approved

**8. Site meeting.** No site meeting was held during the month.

## 9. Financial Matters.

### Bills paid:

One Voice Wales – Membership	101169	£147.00
Zurich Municipal – Council Insurance	101170	£724.91
Hildreth Owen – Clerk’s Salary and Expenses	101171	£1,000.72
Mrs Karen Jones – Caretaker’s Salary	101172	£216.00
CCC (Council’s contribution to ‘Y Cardi Bach’ 2010)	101173	£318.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101174	£100.00
Clr Des Davies (Bill for 4 “Bronze Bushes” for repairing the swings at Ferwig Play Area)	101175	£11.52

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the above bills be paid.

<b>Receipts</b>	Bank interest for the financial year 2010-11	£2.91
-----------------	--	-------

<b>Other financial matters.</b>	The accounts were checked by Cllr Ann Stokoe, 22/3/11 and found to be correct.	
	VAT Repayment 1 April 2010 – 31 March 2011	£473.71
	The financial report for 2010-11 was presented to members.	

## 10. Correspondence

53	Zurich Municipal Insurance	Policy for 2011/12	Paid
54	One Voice Wales	Correspondence re. membership 2011/12	Paid
55	One Voice Wales	Training Calendar 2011/12	Noted
56	One Voice Wales	Minutes and Agenda 31/3/11	Noted
57	CCC – Highways dept.	E-mail re. Tremain bus shelter	Cllr Islwyn Iago volunteered to paint the shelter.
58	Abacus Cleaning Services	Costings of cleaning bus shelters	Noted
59	Mr D. Hywelfryn Jones	Complaint re. overgrowth on path towards the viewpoint	Clerk asked to write to the county council
60	Mencap Cymru	Application for financial support	The Council has decided to support local charities only.
61	CCC – Highways dept.	Acknowledgement re. 12 complaints	Noted
62	CCC – Returning Officer	Referendum posters to be distributed	Clerk has distributed posters
63	CCC – Highways dept.	Response re. work in Gwbert	See item 5 above.
64	BT	Further e-mail re. kiosks	See item 5 above.
65	CCC – Services, Environment and Housing	Newsletter re. businesses	Noted
66	CCC – Services, Environment and Housing	Local Access Forum Annual Report 2010	Noted

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

67	One Voice Wales	Notice of AGM and Conference 2011	Noted
68	Welsh Assembly Government	Advert re. Welsh for Adults	Noted
69	CCC – Highways dept.	Letter confirming that a new sign has been placed at the entrance to Fferm y Bryn and Felinbedr and that the work on the bus shelters has been completed	See item 5 above
70	CCC	Leaflets re. “Paths for People” to be distributed to councillors	Leaflets distributed.
71	CCC	Questionnaire requesting council opinion on the council’s proposed Improvement Objectives for 2011-12.	Completed on-line
72	CCC (Ian Dutch)	E-mail re. arrangements for “Y Cardi Bach” 2011-13	Clerk asked to contact Mr Ian Dutch for further particulars.

## 11. Other Matters

**Light at the entrance to the Golf Club (SL73 786) and Traffic Lights at Gwbert:** The clerk had received a telephone call from Cllr Dilwyn Jenkins (13/3/11) re. these matters. The clerk contacted the contact number at the County Council re. the lights and also discussed the traffic lights with Steffan Jones. It is most likely that the work will be completed by Wednesday, 16 March if an extension will not be requested by then.

**Location of salt container in Ferwig:** Clerk was asked to contact the County Council regarding the possibility of locating a container in Ferwig following the problems caused by the severe winter.

**Cleaning of Bus Shelters at Gwbert and Ferwig:** The clerk was asked to contact the County Council regarding the condition of the bus shelters in Gwbert and Ferwig and requesting that they be cleaned.

**The Missing Link between the Viewpoint and the Cliff Hotel, Gwbert:** It was suggested that the clerk contact the County Council asking for an update regarding the missing link.

**Subsidence on the road near Hafod Farm:** It was agreed that the clerk once again contacts the County Council regarding this problem.

**Subsidence beneath the “Viewpoint” notice at Gwbert:** The clerk was asked to write to the County Council regarding the problem.

**Minutes of Consultation Meeting:** It was agreed to ask the Chief Executive for an update regarding the meeting.

**Mwnt Toilets:** It was suggested to contact the National Trust once again requesting that they extend the opening hours of the facility.

**Subsidence on the road at Felinwynt:** The clerk was requested to contact the County Council regarding the indentations in the road at Felinwynt.

## 12. Date of Council Annual General Meeting: 9 May 2011 at 7.30pm in Ystafell Berkley, Penyparc.

*Council Meetings for 2011 will be held as follows:*

6 June (F) 4 July (YB)

5 September (F) 3 October (YB) 7 November (F) 5 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting